Gwaith Stryd
Adran yr Amgylchedd
De Ffordd yr Abaty
Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam
LL13 9PW
Ffôn: 01978 729743
E-bost:
highwayroadworks@wrexham.gov.uk

Deddf Priffyrdd - Adran 139 Trwydded i osod Sgip ar y Briffordd

wrexham COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL wrecsam

Manylion yr ymgeisydd

Cwmni _____

Enw Cyswllt _____

Ffôn: _____ Ffacs : _____

E-bost: _____

Dyddiad y Cais:

Eiddo _____

Maint:

Enw'r Ffordd _____

Newidiwyd : Bob dydd Bob wythnos Arall

(os yn berthnasol)

Tref/ Pentref _____

Nodwch

_____

Dyddiad Dechrau _____ Dyddiad Gorffen _____

Rhaid i bob cais gyrraedd tri diwrnod gwaith cyn y dyddiad cychwyn y drwydded.

(Ar gyfer defnydd swyddogol yn unig)

Cymeradwyaeth

Rhoddir caniatâd, yn ddarostyngedig i'r amodau arbennig isod.

Llofnod _____ (Goruchwyliwr)

Amodau		**Archwiliwyd**		**Amseroedd Casglu**
Conau yn Unig	☐	Marciau	☐	
Goleuadau / Conau	☐	Rheolaeth Traffig	☐	
Conau / Arwydd Cyfeirio	☐	Goleuadau / Conau	☐	
Rheolaeth Traffig	☐	Dyddiad:		

Anfonebu

Cyfeirnod

Rhif Anfoneb

Dyddiad Anfoneb

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM
GOSOD SGIPIAU AR Y BRIFFORDD – DEDDF PRIFFYRDD 1980 – ADRAN 139
COFRESTRU SEFYDLIADAU AM Y CYFNOD 01/04/2021 TAN 31/03/2022

1. Mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o dan Adran 139 Deddf Priffyrdd 1980 i gymeradwyo gosod sgipiau ar y briffordd ac mae angen i sefydliadau gofrestru eu bwriad.

2. Yn ychwanegol at y cofrestriad hwn, mae'n rhaid i sefydliadau wneud ceisiadau unigol am ganiatâd i osod sgipiau yn y briffordd a bydd ffi o £55.00 am bob hawl unigol a roddir. Codir £55.00 arall os caiff y sgip ei gosod am fwy nag wythnos a hyd at fis.

3. Bydd y caniatâd a roddir yn ddarostyngedig i'r amodau yn y cofrestriad hwn ac unrhyw amodau eraill y gall yr Awdurdod Priffyrdd eu gosod.

4. Dim ond yn y lleoliadau y cytunir arnynt gyda'r Awdurdod Priffyrdd y gellir gosod sgipiau.

5. Rhaid gosod pob sgip fel bod ei ochrau hiraf yn gyfochrog â llinell gwrb y droedffordd, gan adael y droedffordd yn glir i gerddwyr, gan sicrhau nad yw'n rhwystro unrhyw ddraeniad dŵr wyneb nac yn rhwystro mynediad i unrhyw dwll archwilio neu gyfarpar unrhyw Ymgymerwr Statudol.

6. Rhaid i bob sgip (os gofynnir am hyn) gael ei gwarchod gan o leiaf dri chôn traffig ac arwydd saeth cyfeiriadol (610) ar y ffordd gerbydau mewn llinell arosgo ar ochr ddynesu at y sgip. Pan fo dwy sgip neu fwy yn cael eu gosod mewn rhes, fel nad yw'r pellter rhwng sgipiau cyfagos yn fwy na dwy fetr, bydd y rhes yn cael ei warchod fel pe bai'n un sgip. Mae angen conau traffig.

7. Pan fo mwy nag un sgip ar y ffordd gerbydau ar unrhyw un adeg, rhaid gosod y sgipiau mor agos â phosib i'w gilydd, ond nid fel eu bod yn rhwystro mynediad i unrhyw eiddo oni bai y cafwyd caniatâd meddiannydd yr eiddo hwnnw.

8. Ni ddylai unrhyw sgip fod yn fwy na phum metr o hyd â dau fetr o led, a rhaid ei orchuddio â phaent a deunyddiau eraill fel ei bod i'w gweld yn syth gan draffig sy'n dod tuag ati. Yn ogystal, bydd gan bob sgip stribedi adlewyrchol ar y pedair cornel a bydd 2 gôn yn ei hamddiffyn ar y ddwy ochr allan. Rhaid i sgipiau sydd wedi eu gosod ar y ffordd fod wedi eu marcio'n glir gydag enw'r perchennog a'i rif ffôn neu gyfeiriad.

9. Bydd pob sgip neu grŵp o sgipiau, tra byddant ar y ffordd gerbydau, wedi cael eu marcio a'u goleuo yn y nos, hynny yw, rhwng machlud a gwawrio.
Rhaid gosod lamp felyn yn erbyn neu ynghlwm pob cornel o'r sgip neu gorneli pen y rhes sgipiau lle mae dwy sgip neu fwy wedi eu gosod yn olynol ac nid yw'r pellter rhwng sgipiau cyfagos yn fwy na dwy fetr.

10. Ni ddylai unrhyw sgip pan fydd yn y ffordd gerbydau gynnwys unrhyw ddeunydd fflamadwy, ffrwydrol, gwenwynig neu beryglus neu unrhyw ddeunydd sy'n debygol o bydru neu sydd fel arall, neu'n debygol o ddod, yn niwsans i ddefnyddwyr y briffordd.

11. Ni chaniateir defnyddio sgip yn y fath fodd fel bod unrhyw ran o'i gynnwys yn syrthio i'r briffordd neu fod llwch yn dianc o gynnwys y sgip wrth sefyll yn y ffordd gerbydau.

12. Rhaid symud pob sgip i'w gwagio cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

13. Ni chaiff unrhyw sgip aros ar y briffordd yn unol â'r caniatâd hwn ar ôl i gyfnod y drwydded ddod i ben.

14. Rhaid i'r holl ddeunyddiau a osodir ym mhob sgip gael eu gwaredu'n iawn a rhaid gadael y briffordd lle mae'r sgip neu'r sgipiau wedi bod mewn cyflwr glân a thaclus pan ddaw'r drwydded i ben.

15. Rhaid i'r ymgeisydd unioni unrhyw ddifrod i eiddo'r briffyrdd.

16. Bydd Perchennog y Sgip yn indemnio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn erbyn unrhyw gais a all godi o ganlyniad i bresenoldeb y sgip ar y briffordd neu beidio â chydymffurfio â'r amodau uchod a rhaid iddo ddal yswiriant atebolrwydd cyhoeddus am o leiaf £5 miliwn . Rhaid dychwelyd copi o'r dystysgrif yswiriant gyda'r cofrestriad hwn.

17.

(a) Enw'r Cwmni ……

(b) Cyfeiriad ……

……

(c) Llofnodwyd ar ran y cwmni Enw .....

Tystiwyd gan Enw.....

Llofnodwyd ar ran CBSW Dyddiad ……

SYLWER:

Adran 139 (3) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - Os caiff sgip adeiladwr ei gadael ar briffordd heb ganiatâd a roddwyd o dan yr adran hon, mae perchennog y sgip yn ddarostyngedig i is-adran (6) isod, yn euog o dramgwydd ac yn atebol i dirwy heb fod yn fwy na £100.

Adran 139 (4) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - lle mae sgip adeiladwr wedi'i gadael ar briffordd yn unol â chaniatâd a roddwyd o dan yr adran hon, bydd perchennog y sgip yn sicrhau:

a) bod y sgip wedi'i goleuo'n iawn yn ystod oriau tywyll;
b) bod y sgip wedi'i marcio'n amlwg ag enw'r perchennog a'i rif ffôn neu gyfeiriad;
c) bod y sgip yn cael ei symud cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddi gael ei llenwi;
d) y cydymffurfir â phob un o'r amodau sy'n ddarostyngedig i'r caniatâd - ac os bydd yn methu â gwneud hynny, mae'n ddarostyngedig i is-adran (6) isod, yn euog o dramgwydd ac yn atebol i ddirwy heb fod yn fwy na £100.

Adran 139 (5) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - Pan fo unrhyw berson yn cyflawni tramgwydd o dan yr adran hon oherwydd gweithred neu ddiffyg rhywun arall i weithredu, mae'r person arall yn euog o'r tramgwydd, a gellir cyhuddo a chollfarnu person o'r trosedd yn rhinwedd yr is-adran hon, p'un a yw achos yn cael ei gymryd yn erbyn y person a grybwyllwyd gyntaf ai peidio.

Adran 139 (6) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - Mewn unrhyw achosion am dramgwydd o dan yr adran hon, mae'n amddiffyniad, yn ddarostyngedig i is-adran (7) isod, i'r person a gyhuddir i brofi bod y drosedd wedi'i chyflawni oherwydd gweithred neu ddiffyg rhywun arall i weithredu a'i fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi cyflawni tramgwydd o'r fath ganddo'i hun neu unrhyw berson o dan ei reolaeth.

Adran 139 (7) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - Ni chaiff person sy'n cael ei gyhuddo o dramgwydd o dan yr adran hon, heb ganiatâd y llys, hawl i ddibynnu ar yr amddiffyniad a ddarperir gan is-adran (6) uchod oni bai, o fewn cyfnod sy'n diweddu 7 diwrnod clir cyn y gwrandawiad, mae wedi cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r erlynydd gan roi gwybodaeth o'r fath sy'n adnabod neu'n cynorthwyo i adnabod y person arall hwnnw a oedd bryd hynny yn ei feddiant.

Adran 139 (8) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - Pan fo unrhyw berson yn cael ei gyhuddo o dramgwydd o dan unrhyw ddeddfiad arall neu os na fydd yn sicrhau bod sgip adeiladwr a osodwyd ar briffordd yn unol â chaniatâd a roddwyd o dan yr adran hon wedi'i goleuo'n iawn yn ystod oriau tywyll, mae'n amddiffyniad i'r person sy'n cael ei gyhuddo brofi y cyflawnwyd y dramgwydd o ganlyniad i weithred neu ddiffyg gweithred person arall a'i fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni trosedd o'r fath ganddo'i hun neu unrhyw berson o dan ei reolaeth.

Adran 139 (9) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - Pan fo person yn cael ei gyhuddo o rwystro neu darfu ar unrhyw ddefnyddiwr o briffordd trwy adael sgip adeiladwr ar y ffordd, mae'n amddiffyniad i'r person a gyhuddir brofi bod y sgip wedi'i gosod ar y ffordd yn unol â chaniatâd a roddwyd o dan yr adran hon a naill ai: -

a) y cydymffurfiwyd â phob un o ofynion is-adran (4) uchod; neu
b) bod cyflawni unrhyw drosedd o dan yr is-adran honno yn ganlyniad i weithred neu ddiffyg gweithredu person arall a'i fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac ymarfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi cyflawni trosedd o'r fath ganddo'i hun neu unrhyw berson o dan ei reolaeth.

Adran 139 (10) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - Ni ddylid cymryd dim yn yr adran hon fel awdurdodi creu niwsans neu berygl i ddefnyddwyr priffordd neu greu bwrn ar Awdurdod Priffyrdd y rhoddwyd caniatâd ganddo dan yr adran hon unrhyw atebolrwydd am unrhyw anaf, difrod neu golled sy'n deillio o bresenoldeb y sgip y mae'r caniatâd yn ymwneud ag ef ar y briffordd.

Adran 139 (11) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - Yn yr adran hon ac Adran 140 isod -

Ystyr "sgip adeiladwr" yw cynhwysydd a ddyluniwyd i gael ei gludo ar gerbyd ffordd ac i'w osod ar briffordd neu dir arall ar gyfer storio deunyddiau adeiladwyr, neu i symud neu i gael gwared â rwbel adeiladu, gwastraff, sbwriel cartref a sbwriel arall neu bridd; ac

Ystyr "perchennog", mewn perthynas â sgip adeiladwr sy'n destun cytundeb llogi, sef cytundeb ar gyfer llogi am o leiaf mis, neu gytundeb hurio, yw'r person sydd â meddiant o'r sgip o dan y cytundeb hwnnw.

Adran 140 (1) o Ddeddf Priffyrdd 1980 – Mae'r darpariaethau canlynol o'r adran hon â grym mewn perthynas â sgip adeiladwr a osodwyd ar briffordd er gwaethaf iddi gael ei gosod ar y briffordd yn unol â chaniatâd a roddwyd o dan Adran 139 uchod.

Adran 140 (2) o Ddeddf Priffyrdd 1980 – Gall yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y briffordd neu gwnstabl mewn lifrai ofyn i berchennog y sgip ei symud neu ei hadleoli neu achosi iddi gael ei symud neu ei hadleoli.

Adran 140 (3) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - Rhaid i berson y gofynnir iddynt symud neu adleoli sgip, neu achosi i symud neu adleoli sgip o dan ofyniad a wnaed yn rhinwedd is-adran (2) uchod gydymffurfio â'r gofyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac os yw'n methu â gwneud hynny, mae'n euog o dramgwydd ac yn atebol i ddirwy heb fod yn fwy na £50.

Adran 140 (4) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - Gall yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y briffordd neu gwnstabl mewn lifrai eu hunain symud neu adleoli'r sgip neu achosi iddi gael ei symud neu ei hadleoli.

Adran 140 (5) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - Pan fo sgip yn cael ei symud dan is-adran (4) uchod, bydd yr Awdurdod Priffyrdd, neu, fel y gallai'r achos fod, Prif Swyddog yr Heddlu, pan fo hynny'n ymarferol, yn hysbysu'r perchennog o symud y sgip, ond os na ellir olrhain y perchennog, neu os ar ôl cyfnod rhesymol o amser ar ôl cael ei hysbysu nad yw wedi adfer y sgip, gall yr Awdurdod Priffyrdd neu Brif Swyddog yr Heddlu gael gwared ar y sgip a'i chynnwys.

Adran 140 (6) o Ddeddf Priffyrdd 1980 – Gellir adfer unrhyw dreuliau rhesymol y daw'r Awdurdod Priffyrdd neu Brif Swyddog yr Heddlu ar eu traws wrth symud neu adleoli sgip o dan is-adran (4) uchod neu gael gwared ar sgip o dan is-adran (5) uchod, oddi wrth berchennog y sgip mewn unrhyw lys o awdurdodaeth cymwys neu yn ddiannod fel dyled sifil.

Adran 140 (7) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - Defnyddir unrhyw enillion o gael gwared ar sgip o dan is-adran (5) uchod yn y lle cyntaf i gwrdd â'r costau y deuir yn rhesymol ar eu traws wrth symud a chael gwared ar sgip, a bydd unrhyw beth sydd ar ôl yn cael ei roi i'r person sydd â hawl iddo os gellir ei olrhain ac os na ellir, bydd yn cael ei gadw gan yr Awdurdod Priffyrdd neu Brif Swyddog yr Heddlu, fel y gallai'r achos fod; a bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei gadw gan Brif Swyddog yr Heddlu a'i dalu i gronfa'r heddlu.

Adran 140 (8) o Ddeddf Priffyrdd 1980 - Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at gostau y daethpwyd ar eu traws wrth symud sgip yn cynnwys cyfeiriadau at dreuliau y daethpwyd ar eu traws wrth storio'r sgip nes ei fod yn cael ei hadfer gan y perchennog neu, fel y gallai'r achos fod, y ceir gwared arni.

Adran 140 (9) o Ddeddf Priffyrdd 1980 – Nid yw perchennog sgip yn euog o dramgwydd o dan Adran 139 (4) uchod o fethu â sicrhau y cydymffurfir ag amod sy'n ymwneud â lleoli'r sgip os yw'r methiant yn deillio o ganlyniad o ailosod y sgip o dan is-adran (3) neu (4) uchod.